
WELSH BALLROOM COMMUNITY X THEATR GENEDLAETHOL CYMRU




# KiKi Cymraeg

(PERFFORMIAD SGRATSH
SCRATCH PERFORMANCE)

@WBC_Cardiff
@TheatrGenCymru
www.theatr.cymru

Theatr
Genedlaethol
Cymru

# Croeso i Kiki Cymraeg!

Fel rhan o gydweithio cyffrous rhwng Cymuned Dawnsfa Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru, ry'n ni'n cyflwyno noson sgratsh o waith ar y gweill. Bydd **Kiki Cymraeg** yn cynnwys perfformiadau gair llafar gan yr artistiaid **Lauren Morais**, **Nina Bowers** a **Leo Drayton** yn archwilio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn cwiar yng Nghymru heddiw.

As part of an exciting collaboration between the Welsh Ballroom Community and Theatr Genedlaethol Cymru (the Welsh-language National Theatre) we're presenting a scratch night of work in progress. **Kiki Cymraeg** will feature original spoken word performances by artists **Lauren Morais**, **Nina Bowers** and **Leo Drayton**, exploring what it means to be queer in Wales today.

## Artistiaid / Artists

**Kwabena 007** | @black_daffodil14
**Leighton Rees Milan** | @leightonreesmilan
**Supreme Milan** | @suprememilandarling
**Opulence Milan** | @mizzcariad
**Hollywood 007** | @linvonlin
**DJ Raven 007** | @curatedbyraven
**Lauren Morais** | @laurenmoraisss
**Nina Bowers** | @nina_may_b
**Leo Drayton** | @leo.drayton



## Tîm Creadigol / Creative Team

Dramodwyr / Writers
**Lauren Morais, Nina Bowers + Leo Drayton**

Cyfarwyddwyr / Directors
**Duncan Hallis + Steffan Donnelly**

**@WBC_Cardiff**
**@TheatrGenCymru**

# Dawnsfa / Ballroom

Rhwng y 1960au a'r 1980au yn Harlem, Efrog Newydd, daeth ffurf hynod arddulliadol o ddawns i'r amlwg o fewn cymunedau LHDTC+ Du a Latinx Efrog Newydd. Cynhaliwyd cystadlaethau a'u galwyd yn ddawnsfeydd ('balls') yn rheolaidd o ganol y 1800au ymlaen, a daethant i'r amlwg i'r cyhoedd yn y 1920au. Roedd y digwyddiadau hyn yn hanfodol wrth greu a chynnal diwylliant LHDTC+.

Mae sîn y ddawnsfa wedi datblygu'n ddiwylliant tanddaearol cenedlaethol a rhyngwladol gyda dawnsfeydd mawr a chystadlaethau dawns yn cael eu cynnal mewn gwahanol ranbarthau o'r Unol Daleithiau a ledled y byd.

Between the 1960s and 1980s in Harlem, New York, a highly stylised form of dance emerged from the Black and Latinx New York LGBTQ communities. Competitions known as 'balls' had been regularly held since the mid-1800s, gaining public visibility in the 1920s. Balls were crucial in the creation and maintenance of LGBTQ culture.

The ballroom scene has evolved into a national and international underground culture with many balls being held in different regions of the United States and around the world.

# Sgratsh / Scratch

Mae nosweithiau sgratsh yn gyfleoedd anffurfiol i artistiaid theatr 'brofi' gwaith cyfredol gyda chynulleidfa fyw. Mae'r perfformiadau gan amlaf yn waith ar y gweill, ac fel arfer yn y camau datblygu cynnar iawn. I gynulleidfaoedd, mae nosweithiau sgratsh yn ffordd o weld gwaith newydd sbon, cyfrannu at ddatblygiad darn, a chefnogi'r artistiaid; y cyfan mewn noson allan llawn hwyl!

Scratch nights are informal opportunities for theatre artists to 'test' a current work on a live audience. The performances are most often work-in-progress, and usually in the very early stages of development. For audiences, Scratch nights are a way to see brand new works, contribute to the development of a piece and support the artists, all while having a fun night out!

# Vogue-iadur
# Vo(gue)cabulary

**Newydd i fyd Dawnsfa? Dyma esboniad o rai o'r termau fwyaf eiconig sy'n cael eu defnyddio yn ystod perfformiadau.**

**New to the world of Ballroom? We've got you covered. Here's a list of must-know terminology to get you on track.**

## VOGUE:

Math o ddawns sy'n hanu o Harlem yn yr 1970au. Dechreuodd Vogue yng ngharchar Riker's Island mewn cyfnod lle y gwahanwyd carcharorion cwiar oddi wrth carcharorion strêt. Dyfeisiodd y carcharorion hyn, oedd yn bennaf yn Ddu a Latinx, gêm lle bydden nhw'n dynwared ystumiau a lluniau cylchgrawn Vogue, gan weld pwy fyddai'n gallu eu hail-greu orau. Paris Dupree ddaeth a'r gêm hon y tu hwnt i furiau'r carchar ac i'r clybiau nos, lle daeth y ffurf hwn o ddawns i gael ei ddathlu yn rhyngwladol.

Vogue is a style of dance originated in Harlem in the 1970s. Vogue began in Riker's Island Prison at a time when straight inmates were separated from their queer counterparts. These mostly Black and Latinx inmates created a game where they would imitate the poses and photos in Vogue magazine, seeing who could best serve the look. Paris Dupree brought this game from Riker's Island to the clubs, where it became a form of dance celebrated internationally.

## KIKI:

Mae kiki yn ddigwyddiad di-ffys, yn aml yn llawn dawns a chystadlu cyfeillgar. Wastad yn hwyl, byth yn ddifrifol. Cymuned yw canolbwynt sîn dawnsfa kiki, ac yn aml trefnir digwyddiadau gan aelodau newydd sy'n dechrau dod i'r amlwg o fewn y sîn.

A kiki is a low-key function, sometimes including dancing and friendly competition. Always fun, never serious. The kiki ballroom scene is focused heavily on community, and events are often run by up-and-coming members of the scene.

## WALK (A CATEGORY):

Cymryd rhan mewn categori o fewn y ddawns .

To enter a category in a ball.

## BATTLE:

Pan mae un perfformiwr vogue yn herio un arall, o fewn neu y tu hwnt i ddawns

When one voguer challenges another, in or out of a ball.

## Legend(ary):

Un sydd wedi ennill llawer o wobrau, sydd â hanes ym myd Dawnsfa; Vogue-iwr profiadol

A multi-trophy winner, with a ballroom history; a veteran.

## CHOP:

Cael dy dorri o'r categori. Os wyt ti'n cael dy dorri, fyddi di ddim yn mynd 'mlaen i rownd nesaf y categori hwnnw.

Being cut from a category. Getting chopped means you will not advance to the next round of that category.

## Cunt(y):

Holl-fenywaidd; hefyd yn gyfnewidiol â'r term "ovah".

Ultra feminine; also, interchangeable with "ovah".

## HOUSE:

Sefydliad o fewn y gymuned ddawnsfa sy'n cynnig cymorth, adnoddau, ac sy'n cymryd rhan mewn a threfnu dawnsfeydd. Caiff tai traddodiadol eu rhedeg gan fam a thad.

A chosen family within the ballroom community that serves as a system of support, provides resources, and enters and throws balls. A traditional house is headed by a mother and father of the house.

## LEGENDARY CHILDREN:

Aelodau sy'n dechrau dod yn adnabyddus ym myd y ddawnsfa.

Up-and-coming members in the ballroom scene.

## NEW WAY:

Steil perfformio vogue sy'n pwysleisio symudiadau, ystumiadau, hyblygrwydd, twtian a locio.

A style of vogue that emphasizes rigid movements, contortions, flexibility, tutting, and locking.

## OLD WAY:

Y steil gwreiddiol o berfformio vogue. Yn wreiddiol cyfeiriwyd ato fel "cyflwyniad", ac mae 'old way' yn pwysleisio creu llinellau syth ac onglau.

The first style of vogue. Originally called "presentation," old way emphasizes creating straight lines and angles.

## REALNESS:

Y gallu i ymddangos fel rhan o grŵp na fyddech chi fel arfer yn cael eich cysidro'n rhan ohono. Er enghraifft, os yw categori'n galw am "executive realness", bydd disgwyl i gystadleuwyr weini gwedd CEO cyfoethog yn ei holl ogoniant.

The ability to blend into a group that is not necessarily one's own. For example, if a category calls for "executive realness," contestants will be expected to serve their best rich CEO look.

## 10s:

Os ydych chi'n cael 10au gan y beirniaid byddwch yn symud 'mlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth.

Getting your 10s from the judges means participants will progress to the next round of the competition.

## VOGUE FEMME:

Steil vogue sy'n pwysleisio symudiadau benywaidd. Mae pum elfen i'r steil yma: catwalk, duck walk, perfformiad dwylo, troelli a dipio, a pherfformio llawr.

A style of vogue that emphasizes feminine movements. There are five elements to this style: catwalk, duck walk, hand performance, spins and dips, and floor performance.

## CAT-WALK:


Cyflwyno symudiadau Vogue Femme trwy sashay.

Upright Vogue Femme sashaying.

## DIP:

Ym myd vogue, stynt sy'n digwydd ar y llawr

In vogueing, a ground-level stunt.



# AMDANOM NI / ABOUT US

## Cymuned Dawnsfa Cymru
## Welsh Ballroom Community

Gyda Chymunedau Dawnsfa ar hyd a lled y byd, Caerdydd w canolbwynt diwylliant Dawnsfa cyntaf Cymru ac mae wedi sefydlu cymuned fach ond llewrchus. Ers ei sefydliad, mae diwylliant Dawsnfa wedi chwarae rhan bwysig mewn cymunedau Americaniadd LHDTC+, gyda chyfrannwyr yn ffurfio 'tai' oedd yn cynrychioli teulu estynedig.

Ers y cychwyn cyntaf yn ystod clo mawr 2020, mae Cymuned Dawnsfa Cymru wedi derbyn clod rhyngwladol. Wedi'i sefydlu gan Leigton Rees Milan, aelod Cymraeg cyntaf y Royal Iconic House of Milan, a gyda chefnogaeth gan Kyle London Tisci o'r Impeccable Haus Of Tisci, mae'r gymuned wedi esblygu i fod yn ddathliad bywiog o hunaniaeth cwiar yng Nghymru, ac mae'n cynnig gwagle diogel i bobl ddatblygu cysylltiadau a chwrdd â phobl o'r un anian.

Meddai Leighton Rees Milan, sylfaenydd Cymuned Dawnsfa Cymru: *"Cymuned sy'n bwysig. Roedd camau cyntaf ein cydweithio gyda Duncan Hallis a Theatr Gen yn foment hollbwysig i'r aelodau CDC hynny wnaeth gymryd rhan. Fe wnaeth y profiad yn galluogi i ddatblygu cysylltiad tyfnach fyth gyda'n gilydd, ac fe gyflwynodd cymaint o bosibiliadau ar gyfer dyfodol y prosiect cyffrous hwn.."*

With Ballroom Communities all around the world, Cardiff has now become Wales's first epicentre for Ballroom culture and has amassed a small but thriving community. Since its creation, Ballroom culture has played an extremely important role in American LGBTQ+ communities especially, with participants forming 'houses' that functioned as an extended family.

The Welsh Ballroom Community has already received international recognition since its creation during the lockdown in 2020. Founded by Leighton Rees Milan, the first Welsh member of The Royal Iconic House Of Milan, and supported by Kyle London Tisci from The Impeccable Haus Of Tisci, the community has evolved into a vibrant celebration of queer identity in Wales and offers a safe space for people to connect and meet like-minded people.

Leighton Rees Milan, founder of the Welsh Ballroom Community, said: *"Community Is Key. The first stages of our collaboration with Theatr Gen and Duncan Hallis, were a pivotal moment for the WBC members involved. It allowed us to connect with each other on a much deeper level and opened us up to new possibilities of the future of this exciting project."*

**@WBC_Cardiff**

# Theatr Genedlaethol Cymru

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn creu profiadau theatrig beiddgar sy'n diddanu ac ysbrydoli pobl Cymru. Rydym yn creu man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon. Rydym hefyd yn creu cyfleoedd sy'n fodd i feithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg ynghyd â chyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau. Fe'u henwebwyd fel Cynhyrchydd y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Stage 2024.

Meddai Steffan Donnelly, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru: *"Dwi'n methu aros i gydweithio gyda Chymuned Dawnsfa Cymru a'r anhygoel Duncan Hallis ar noson cwiar i'w chofio. Gyda'r sgwennwyr Lauren, Leo a Nina, byddwn yn archwilio realiti a ffantasia, dewrder a moethusrwydd, yr hen a'r newydd. Trwy ddyfeisio yr ydym ni yn Theatr Gen yn datblygu gwaith newydd, ac ry'n ni'n llawn cyffro i gael y cyfle i arbrofi wrth gyfuno celfyddyd y Ddawsnfa a theatr.."*

Theatr Genedlaethol Cymru is the Welsh-language national theatre, creating bold theatre experiences to entertain and inspire the people of Wales. We create a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments. We also facilitate opportunities that are a means of nurturing and inspiring the next generation of Welsh theatre artists, together with opportunities for people in all parts of Wales to experience the transformative effect of creativity in their lives. The company was nominated as Producer of Year in The Stage Awards 2024.

Steffan Donnelly, Theatr Genedlaethol Cymru's Artistic Director, said: *"I can't wait to collaborate with the Welsh Ballroom Community and the brilliant Duncan Hallis to create a queer night to remember. Working with three exceptional writers in Lauren, Leo and Nina we'll be exploring reality and fantasia, courage and opulence, the ancient and contemporary. Devising is one of the many ways Theatr Gen develops new work and we're excited to be throwing the doors open to our experimentation with bringing the Ballroom and theatre artforms together."*

**@TheatrGenCymru**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488